# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Panel Craffu

## Ymarfer Hap-samplu

## Troseddau â chyllyll

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel ar Achosion Ieuenctid

## Mawrth 2025

## Cynnwys

1.0 Trosolwg ........ 2
2.0 Cefndir, diben a methodoleg ........ 2
3.0 Cymeradwyaeth gan gadeirydd y panel ........ 3
4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel ........ 3
5.0 Meysydd i’w gwella a themâu sy’n codi o’r newydd (achosion ieuenctid)...... 3
6.0 Ystyriaeth o achosion ieuenctid ........ 3
7.0 Asesiadau’r panel hyd yma ........ 6
8.0 Ethnigrwydd a rhywedd ........ 8
9.0 Ffocws y panel yn y dyfodol ........ 9
10.0 Camau gweithredu ........ 9

## 1.0 Trosolwg

Ar 19 Mawrth 2025, mynychodd aelodau o’r panel craffu ar ddatrysiadau y tu allan o’r llys gyfarfod i adolygu detholiad o chwech achos oedolion a chwech achos ieuenctid yn ymwneud â throseddau â chyllyll a oedd wedi cael eu trin drwy ddatrysiad y tu allan i’r llys. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau’r panel mewn perthynas ag achosion yr ieuenctid.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir trwy gyfrwng Microsoft Teams.

## 2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Diben y panel craffu ar ddatrysiadau y tu allan i’r llys yw asesu, craffu a rheoli yn annibynnol ansawdd y defnydd o ddatrysiad y tu allan i’r llys gan Heddlu Dyfed-Powys. Gall y panel wneud argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfathrebu canfyddiadau, hyrwyddo arferion gorau a nodi anghenion datblygu polisi neu anghenion hyfforddi posibl i’w hystyried gan yr heddlu neu asiantaethau eraill sy’n gysylltiedig. Ni all y panel newid canlyniad gwreiddiol yr achos.

Mae aelodaeth y panel yn cynnwys partneriaid o fewn y system cyfiawnder troseddol sy’n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau o Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a mainc o ynadon.

Gyda’i gilydd mae aelodau’r panel yn cytuno ar faes i ganolbwyntio arno ym mhob cyfarfod. Maent yn cael ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod, sydd wedi’u dewis ar hap gan gadeirydd y panel. Yna, mae’r panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle bo’n bosibl, yn dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y gwarediad. Wrth benderfynu ar hyn, mae’r panel yn ystyried y meini prawf canlynol:

- Barn ac adborth y dioddefwr a’r troseddwr.
- Cydymffurfedd â pholisi’r heddlu.
- Y rhesymeg dros y penderfyniad a’r canlyniad.
- Yr effaith bosibl ar y gymuned.
- Yr amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd.
- Opsiynau eraill posibl a allai fod wedi bod ar gael.

Mae’r panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o’r canlynol:

- Defnydd priodol sy’n gyson â pholisi.
- Defnydd priodol ond bod gan aelodau’r panel amheuon.
- Defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi.
- Y panel yn methu â dod i gasgliad.

## 3.0 Cymeradwyaeth gan gadeirydd y panel

Gallaf _Carys Morgans__ (enw mewn print) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan y panel yn ystod ein hymarfer hap-samplu dyddiedig 19 Mawrth 2025.

Llofnodwyd: 

Dyddiad: _18.06.2025__________

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel

O ganlyniad i waith y panel craffu ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:

- Rhoddwyd adborth i swyddogion

## 5.0 Meysydd i'w gwella a themâu sy'n codi o'r newydd (achosion ieuenctid)

Nodwyd y meysydd canlynol ar gyfer gwella a themâu sy'n codi o'r newydd yn ystod yr adolygiad o achosion ieuenctid:

- Mae'n bryderus darllen bod pob achos ieuenctid wedi digwydd o fewn lleoliad ysgol. Serch hyn nododd y panel bod gwaith rhagweithiol yn digwydd ar hyn o bryd gyda'r timau troseddau ieuenctid a Heddlu Dyfed-Powys i ddatblygu protocol ar gyfer digwyddiadau cyllyll mewn ysgolion.
- Anghysondebau yn y ffordd y cyhoeddir datrysiad y tu allan i'r llys ar draws Dyfed Powys.

## 6.0 Ystyriaeth o achosion ieuenctid

Adolygodd aelodau'r panel chwech achos ieuenctid. O'r achosion hynny, cyhoeddwyd gweithgaredd dargyfeiriol, addysgol neu ymyrraeth i bump ohonynt (canlyniad 22) a datrysiad cymunedol ieuenctid i un.

Roedd asesiadau'r aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 5 |

| | |
|---|---|
| Amhriodol | 1 |

**Achos 1**

Nodwyd nad oedd gan y troseddwr honedig i unrhyw ddigwyddiadau blaenorol gyda'r heddlu na'r Tîm Troseddau Ieuenctid ond ei fod yn dioddef o niwroamrywiaeth difrifol. Nododd y panel yr ymgysylltiad rhagweithiol a gynhaliwyd gan y Tîm Troseddau Ieuenctid gyda'r troseddwr honedig i ddelio â'r digwyddiad dan sylw ond hefyd ei bryderon ehangach. Felly, barnwyd bod y canlyniad 22 a gyhoeddwyd yn briodol.

**Asesiad y panel: Priodol**

**Achos 2**

Trafododd y panel fod y troseddwr honedig wedi cyfaddef yn llawn i'r drosedd ac nad oedd wedi bod yn hysbys i'r heddlu na'r Tîm Troseddau Ieuenctid o'r blaen. Nodwyd hefyd fod y digwyddiad dan sylw yn ehangach na meddu ar y gyllell a barnwyd bod datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol i fynd i'r afael â'r rhain.

**Asesiad y panel: Priodol**

**Achos 3**

Yn ystod yr achos hwn, cydnabu'r panel y profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yr oedd y troseddwr honedig yn eu hwynebu ynghyd â'i niwroamrywiaeth. Nododd y panel y gefnogaeth helaeth a roddwyd i'r troseddwr honedig a chytunodd fod y canlyniad 22 a gyhoeddwyd yn briodol.

**Asesiad y panel: Priodol**

**Achos 4**

Nododd y panel eu pryderon nad oedd y broses gywir wedi'i dilyn gan fod gwarediad adferol ieuenctid wedi'i gyhoeddi i'r digwyddiad hwn yn wreiddiol ond

yna wedi'i newid i ganlyniad 22. Nododd y panel yr anghysondebau yn y ffordd y cyhoeddwyd datrysiadau y tu allan i'r llys ledled Dyfed Powys a chytunodd, oherwydd diffyg gwybodaeth a chydymffurfiaeth â'r polisïau, fod yr achos hwn yn ddefnydd amhriodol o'r datrysiad y tu allan i'r llys.

**Asesiad y panel: Amhriodol**

**Achos 5**

O fewn yr achos nododd y panel fod adroddiad y biwro a ddarparwyd yn cynnwys cynllun manwl a oedd yn hwylus i'w ddarllen. Cydnabuwyd bod gan y troseddwr honedig bryderon ehangach parhaus ac felly bod datrysiad cymunedol yn briodol.

**Asesiad y panel: Priodol**

**Achos 6**

Nododd y panel fod y troseddwr honedig wedi cyfaddef yn llwyr i'r drosedd ac wedi dangos llawer iawn o edifeirwch. Nodwyd hefyd mai dyma oedd trosedd cyntaf y troseddwr honedig, felly ystyriwyd bod y canlyniad 22 a gyhoeddwyd yn briodol.

**Asesiad y panel: Priodol**

**Achos 7**


Cynhaliwyd trafodaethau helaeth mewn perthynas â'r achos hwn lle cwestiynodd y panel a ddylid bod wedi delio â'r troseddwr honedig fel oedolyn neu fel unigolyn ifanc. Penderfynwyd bod y troseddwr honedig yn llanc ar adeg y digwyddiad ac felly ystyriwyd yr achos mewn perthynas â'r achosion ieuenctid eraill a adolygwyd gan y panel. Nododd y panel y manylion helaeth a oedd yn yr adroddiadau a ddarparwyd a chytunodd ei bod yn anodd deall yr amgylchiadau'n llawn. Nodwyd hefyd bod cyhuddiad o feddu ar wrthrych llafnog wedi'i ollwng yn erbyn y troseddwr honedig. Oherwydd yr anhawster i ddeall y cynnwys a'r dryswch ynghylch a oedd y troseddwr honedig yn oedolyn neu'n berson ifanc, penderfynwyd nad oedd y panel yn gallu penderfynu a oedd y datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol. Cytunodd y panel y byddai'n fuddiol gweld adroddiadau'r biwro gan y tîm troseddau ieuenctid i roi rhagor o wybodaeth.


**Asesiad y panel: Methwyd â dod i gasgliad**


| Cam gweithredu 1 |
|---|
| Adroddiadau Biwro'r Tîm Troseddau Ieuenctid ar gyfer achos 4 i'w dosbarthu i'r panel i'r aelodau eu hadolygu ac ailystyried yr achos yn y cyfarfod nesaf. |

## 7.0 Asesiadau'r panel hyd yma

Mae'r siart isod yn dangos asesiad y panel o achosion troseddau â chyllyll ieuenctid a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf:








Mae'r panel wedi ystyried amrywiaeth o warediadau.Yn y graff isod mae cymhariaeth o'r gwarediadau a ystyriwyd o Ebrill 2023 – Mawrth 24 i Ebrill 2024 – Mawrth 25.


O'r 13 achos ieuenctid a archwiliwyd rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, aseswyd 80% fel rhai priodol, 9% fel rhai amhriodol, ac 11% fel rhai priodol gydag amheuon.

O'r 32 achos ieuenctid a archwiliwyd rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, aseswyd 61% fel rhai priodol, 22% fel rhai amhriodol, 13% fel rhai priodol gydag amheuon a methodd y panel â dod i gasgliad mewn 4% o achosion.


Gellir gweld y newid yn y casgliadau a gyrhaeddwyd dros y ddau gyfnod yn y graff isod:




Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad yn ôl math o drosedd fel canran o achosion a ystyriwyd rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2025.





Mae'r graff canlynol yn dangos nifer gwirioneddol yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y panel yn sgil hynny yn eu cyfarfodydd rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2025.




## 8.0 Ethnigrwydd a rhywedd

Mae'r siart canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran rhywedd:




Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran ethnigrwydd.

| Ethnigrwydd a nodwyd | Hunan-asesiad y sawl dan amheuaeth | Asesiad y swyddog |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 6 | 0 |
| Gwyn – Gogledd Ewrop | 0 | 6 |
| Gwyn – Gwyddelig | 0 | 0 |
| Gwyn – Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig | 0 | 0 |
| Anhysbys | 0 | 0 |

Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb o ran hil na rhywedd fel rhan o adolygiad y panel.

## 9.0 Ffocws y panel yn y dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y panel y byddent yn hoffi canolbwyntio ar gyhuddiadau'n ymwneud â difrod troseddol a threfn gyhoeddus yn y cyfarfod nesaf.

## 10.0 Camau gweithredu

| Dyddiad y cyfarfod | Rhif y cam gweithredu | Crynodeb | Unigolyn cyfrifol |
|---|---|---|---|
| 19 Mawrth 2025 | OOCR – 157 | Adroddiadau Biwro'r Tîm Troseddau Ieuenctid ar gyfer achos oedolyn 4 i'w dosbarthu i'r panel. | SCHTh |